## P-05-810 Rhowch Gyfle i Glybiau Pysgota Cymru ac Eog a Brithyll y Môr

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Reuben Woodford, ar ôl casglu 1,710 o lofnodion ar-lein.

### Geiriad y ddeiseb

Rhwystro'r gormodedd o ddal a chadw Eogiaid drwy weithredu cyfyngiadau ar fagiau dal a chadw ar bob afon yng Nghymru am y 4 blynedd nesaf ar sail data penodol i dalgylch mewn ymgynghoriad agos â chlybiau pysgota.
Gweithredu rhaglen stocio gynhwysfawr o bysgod brodorol ar bob afon.
Tynhau a gweithredu deddfwriaeth bresennol er mwyn dileu'r bygythiad o lygredd ffermio a llygredd diwydiant.
Rhwystro pob math o bysgota rhwydi masnachol ar raddfa fawr a gweithrediadau lllongau ffactri o amgylch arfordir Cymru am gyfnod o 10 mlynedd.
Blaenoriaethu dyrannu adnoddau i gynorthwyo i reoli materion sy'n benodol i dalgylchoedd sy'n gysylltiedig â chyfraddau ysglyfaethu naturiol gormodol a rhwystrau rhag ymfudiad pysgod.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

Arfon
Gogledd Cymru